

## **Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023**

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Gyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

### **Datganiad y Gweinidog**

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023. Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

**Jeremy Miles AS**  
**Y GWEINIDOG ADDYSG**

12 Ebrill 2023

## **1. Disgrifiad**

1.1 Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Diwygio) 2023 ("Rheoliadau 2023") yn diwygio Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005 ("Rheoliadau 2005") er mwyn cynnwys opsiwn i apelau derbyn gael eu cynnal o bell, yn ogystal ag yn bersonol, neu drwy gymysgedd o'r ddau. Maent yn gwneud yn barhaol, gydag addasiadau priodol, rai trefniadau dros dro a gyflwynwyd mewn ymateb i bandemig y coronafeirws (COVID-19).

1.2 Mae Rheoliadau 2023 yn gymwys i'r ddau fath o wrandawriad apêl derbyn yr ymdrinnir â hwy o dan Reoliadau 2005, hynny yw apelau yn erbyn penderfyniad awdurdod derbyn i wrthod derbyn plentyn ac apelau gan gyrrff llywodraethu yn erbyn penderfyniad awdurdod lleol i dderbyn i'w hysgol blentyn sydd wedi'i wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu ragor.

## **2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**

2.1 Dim.

## **3. Y cefndir deddfwriaethol**

3.1 Gwneir Rheoliadau 2023 o dan bwerau yn adrannau 94(5) a (5A), 95(3) a (3A) a 138(7) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 ("Deddf 1998") ac maent yn diwygio Rheoliadau 2005 (O.S. 2005/1398 (Cy. 112)).

3.2 Trosglwyddwyd swyddogaethau perthnasol yr Ysgrifennydd Gwladol yn Neddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac yna i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.3 Mae Rheoliadau 2023 yn dirymu Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau 2020"), Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2020 ("Rheoliadau pellach 2020") a Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) (Coronafeirws) (Diwygio) (Diwygio) 2021 ("Rheoliadau 2021"). Gwneir y Rheoliadau hyn o dan y weithdrefn penderfyniad negyddol.

## **4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael**

4.1 Diben Rheoliadau 2023 yw cynnwys opsiwn i apelau derbyn gael eu cynnal o bell, yn ogystal ag yn bersonol (wyneb yn wyneb) neu drwy gymysgedd o'r ddau (hybrid).

4.2 Bydd gan yr awdurdod derbyn (yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu yn dibynnu ar y math o ysgol) yr hyblygrwydd i benderfynu a yw apelau yn cael eu cynnal yn bersonol, o bell, neu drwy gymysgedd o'r ddau gyda rhai cyfranogwyr yn dod i'r apêl yn bersonol ac eraill o bell. Yn unol â hynny, mae rheoliad 3 o Reoliadau 2023 yn gwneud nifer o ddiwygiadau i Reoliadau 2005. Mae rheoliad 3(5)(a) o Reoliadau 2023 yn mewnosod paragraff A1 newydd yn Atodlen 2 i Reoliadau 2005.

Mae paragraff A1 yn caniatáu i awdurdodau derbyn benderfynu, o dan amgylchiadau penodol, a yw gwrandawriad apêl i'w gynnal yn bersonol, drwy fynediad o bell ("apêl o bell") neu'n rhannol yn bersonol ac yn rhannol drwy fynediad o bell ("apêl hybrid") (paragraff A1(1) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 fel y'i mewnosodir gan Reoliadau 2023).

4.3 Caniateir i awdurdodau derbyn benderfynu cynnal apelau o bell os ydynt yn fodlon bod modd gwrandao ar yr apêl mewn ffordd teg a thryloyw, bod yr apelwyr a'r swyddog cyflwyno yn gallu cyflwyno eu hachos yn llawn a bod gan bob cyfranogwr fynediad at y dulliau electronig i'w galluogi i glywed a chael eu clywed a, phan ddefnyddir cyswllt fideo byw, i weld a chael eu gweld.

4.4 Os bydd yr awdurdod derbyn yn penderfynu cynnal apêl o bell neu apêl hybrid, rhaid iddo wneud yr holl drefniadau angenrheidiol er mwyn i'r panel apêl gael mynediad at yr offer mynediad o bell angenrheidiol (paragraff A1(3) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 fel y'i mewnosodir gan Reoliadau 2023).

4.5 Mae rheoliad 3 o Reoliadau 2023 yn cyfyngu ar yr amgylchiadau lle gellir cynnal apelau yn gyfan gwbl drwy gynhadledd ffôn (paragraff A1(2) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 fel y'i mewnosodir gan Reoliadau 2023).

4.6 Mae rheoliad 3 o Reoliadau 2023 yn diwygio ymhellach Reoliadau 2005 er mwyn caniatáu i'r awdurdod derbyn benderfynu y caiff apêl ei phenderfynu ar sail gwybodaeth ysgrifenedig yn unig, o dan amgylchiadau penodol (paragraff A1(5) o Atodlen 2 i Reoliadau 2005 fel y'i mewnosodir gan Reoliadau 2023).

4.7 Yr effaith y bwriedir i Reoliadau 2023 ei chael yw darparu hyblygrwydd i alluogi apelau i gael eu cynnal yn y ffordd fwyaf effeithiol, ond gan gynnal egwyddorion craidd tegwch a chyfiawnder yn y broses apelau.

4.8 Mae'r ddeddfwriaeth yn gymwys i apelau derbyn i ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn unig.

## 5 Ymgynghori

5.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 18 Ionawr 2023 a 22 Mawrth 2023 ar y polisi i ganiatáu i apelau ddigwydd o bell yn ogystal ag yn bersonol, neu drwy gymysgedd o'r ddau, ac ar y Cod Apelau Derbyn i Ysgolion drafft ("y Cod Apelau drafft"). Cafodd yr ymgynghoriad ei gyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru a'i dynnu at sylw awdurdodau lleol, awdurdodau derbyn, ysgolion, ac awdurdodau esgobaethol. Cafwyd 50 o ymatebion. Mae dogfennau'r ymgynghoriad a chrynodeb o'r ymatebion ar gael yn: [Newidiadau i'r trefniadau apelau derbyn i ysgolion | LLYW.CYMRU](#). Amlinellir y prif bwyntiau isod.

5.2 Roedd cefnogaeth unfrydol bron, gyda 98% o'r ymatebwyr yn cytuno gyda'r cynnig i gynnwys opsiwn i apelau gael eu cynnal o bell. Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (96%) fod apelau wyneb yn wyneb ac apelau a gynhelir drwy gynhadledd fideo yn caniatáu ar gyfer gwrandawriad teg a thryloyw. Roedd mwy o gefnogaeth gymwysedig ar gyfer apelau a gynhelir drwy gynhadledd ffôn gyda 37% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y rhain yn caniatáu ar gyfer gwrandawriad teg a thryloyw, a'r un ganran yn anghytuno. Y prif bryder oedd na fyddai panelau yn gallu gweld

mynegiant wyneb y rhai sy'n bresennol na sylwi ar iaith y corff na chliwiau gweledol i ddehongli'r angen am gymorth. Er eu bod yn deall pwysigrwydd gallu gweld a chlywed apelwyr, roedd rhai ymatebwyr yn cydnabod y gallai fod eithriadau prin lle nad yw hynny'n bosibl, ac y byddai cyflwyniadau ffôn a rhai ysgrifenedig yn ddefnyddiol fel opsiwn amgen pan na fydd hi'n bosibl cynnal apelau wyneb yn wyneb na thrwy gynhadledd fideo oherwydd amgylchiadau'r rhieni.

5.3 Rydym yn cydnabod rhai o'r pryderon a godwyd mewn perthynas ag apelau a gynhelir dros y ffôn, a dyna pam rydym wedi cyfyngu ar yr amgylchiadau y gellir cynnal apelau yn gyfan gwbl dros y ffôn. Bydd modd gwneud hynny dim ond pan na ellir cynnal cynhadledd fideo oherwydd materion sy'n ymwneud â chysylltedd neu hygyrchedd, a dim ond pan fydd yr apelydd a'r swyddog cyflwyno yn cytuno. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (77%) yn cytuno â'n cynnig i gyfyngu ar apelau a gynhelir drwy gynhadledd ffôn fel hyn.

5.4 Mae'r sefyllfa o ran apelau a benderfynir ar sail gwybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd yn unig wedi'i nodi ym mharagraff 4.13 o God Apelau 2013. Nid ydym yn gwneud unrhyw newidiadau, o ganlyniad i'r ymgynghoriad, i'r amgylchiadau cyfyngedig lle penderfynir apelau ar sail gwybodaeth ysgrifenedig yn unig, sydd wedi'u cynnwys yng Nghod 2013.

5.5 Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (63%) yn cytuno mai'r awdurdodau derbyn ddylai wneud y penderfyniad ynghylch a ddylid cynnig gwrandawiadau apêl yn bersonol neu o bell neu drwy gymysgedd o'r ddau.

5.6 Rydym yn bwrw ymlaen â'r newidiadau i Reoliadau 2005 i gynnwys opsiwn i apelau gael eu cynnal o bell, yn ogystal ag wyneb yn wyneb, neu drwy gymysgedd o'r ddau (hybrid). Bydd y Cod Apelau Derbyn yn adlewyrchu hyn. Nid yw gwrandawiadau apêl yn gyfarfodydd cyhoeddus, ac nid oes angen iddynt gael eu cynnal mewn fforwm cyhoeddus.

## **RHAN 2 – ASESIAID EFFAITH RHEOLEIDDIOL**

### **6. Asesiad Effaith Rheoleiddiol**

6.1 Mae gan rieni yr hawl i fynegi ffafriaeth ar gyfer unrhyw ysgol yr hoffent i'w plentyn ei mynychu a, pan fo lleoedd, rhaid i awdurdodau derbyn (*yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethu yn dibynnu ar y math o ysgol*) gydymffurfio â'r dewis hwnnw i'r graddau y mae hynny'n gydnaws â darparu cyfarwyddyd a hyfforddiant effeithlon ac osgoi gwariant cyhoeddus afresymol. Mae gan rieni hawl i apelio yn erbyn penderfyniad gan awdurdod derbyn i wrthod lle i'w plentyn yn yr ysgol y maent yn ei ffafrio.

6.2 Mae Deddf 1998 yn darparu'r fframwaith deddfwriaethol ar gyfer apelau derbyn i ysgolion. Mae adran 94 o Ddeddf 1998 yn darparu bod rhaid i drefniadau gael eu gwneud gan awdurdod lleol neu, yn achos ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol a gynorthwyr, corff llywodraethu, sy'n galluogi rhieni i apelio yn erbyn penderfyniadau derbyniadau i ysgolion, gan gynnwys penderfyniadau sy'n gwrthod

caniatâd i blant sydd eisoes wedi eu derbyn i ysgol fynd i chweched dosbarth yr ysgol.

6.3 Mae adran 95 o Ddeddf 1998 yn darparu bod rhaid i drefniadau gael eu gwneud gan awdurdod lleol sy'n galluogi corff llywodraethu ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir i apelio yn erbyn penderfyniad yr awdurdod i dderbyn plentyn sydd, ar yr adeg y gwnaed y penderfyniad, wedi ei wahardd yn barhaol o ddwy ysgol neu ragor.

6.4 Mae panelau apelau derbyn yn annibynnol ar yr awdurdod derbyn. Fel rhan o'i drafodaethau bydd y panel yn ystyried a yw'r awdurdod derbyn wedi gweithredu'n gywir o ran cymhwyso ei drefniadau derbyn wrth ddod i'w benderfyniad.

6.5 Mae Rheoliadau 2005 yn rhagnodi materion sy'n ymwneud ag apelau sy'n cael eu dwyn o dan adrannau 94 a 95 o Ddeddf 1998. Mae'r Cod Apelau Derbyn i Ysgolion ("y Cod Apelau"), yn cael ei wneud o dan adran 84 o Ddeddf 1998. Mae'n gosod gofynion gorfodol ar awdurdodau derbyn i sicrhau bod y broses apelio yn deg ac yn dryloyw.

6.6 Cyn y diwygiadau hyn roedd Rheoliadau 2005 a'r Cod Apelau yn darparu i wrandawiadau apelau gael eu cynnal yn bersonol (wyneb yn wyneb) yn unig.

### **Diwygiadau dros dro i drefniadau apêl yng Nghymru**

6.7 Oherwydd y cyfyngiadau a osodwyd mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, nid oedd bob amser yn bosibl nac yn briodol cydymffurfio â'r Cod Apelau a Rheoliadau 2005. Er enghraifft, roedd cyfyngiadau ar ymbellhau cymdeithasol yn ei gwneud yn amhosibl cynnal gwrandawiadau yn bersonol.

6.8 Felly cyflwynodd Llywodraeth Cymru Reoliadau 2020. Roedd Rheoliadau 2020 yn diwygio Rheoliadau 2005 dros dro er mwyn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd ychwanegol i awdurdodau derbyn, awdurdodau lleol a phanelau apêl wrth ymdrin ag apelau yn ystod y brigiad. Cafodd y newidiadau dros dro eu hestyn gan Reoliadau pellach 2020 a Rheoliadau 2021. Daeth yr estyniad a ddarparwyd gan Reoliadau 2021 i ben ar 30 Medi 2022 (yn amodol ar eithriadau penodol ar gyfer apelau a oedd eisoes yn mynd rhagddynt ar y dyddiad hwnnw).

6.9 Roedd y newidiadau dros dro yn darparu, pan nad oedd yn rhesymol ymarferol i banel apêl derbyn gydymffurfio â'r gofynion gweithdrefnol yn y Cod Apelau nac yn Atodlen 2 i Reoliadau 2005 ar apelau yn bersonol am reswm yn ymwneud â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws, roeddent yn gallu cynnal gwrandawiadau drwy fynediad o bell neu benderfynu apelau ar sail yr wybodaeth ysgrifenedig a ddarparwyd.

6.10 Roeddent hefyd yn darparu, pan oedd angen i aelod o'r panel dynnu'n ôl yn ystod y broses apelio, ac nad oedd yn rhesymol ymarferol i'r panel gael ei ailsefydlu yn y ffordd arferol am reswm sy'n gysylltiedig â mynychder neu drosglwyddiad y coronafeirws, y caniateir i banel sy'n cynnwys o leiaf ddau aelod barhau i ystyried a phenderfynu'r apêl. Hefyd, roedd sawl llinell amser i fod yn gymwys o ran apelau i sicrhau y gallai'r awdurdodau derbyn a'r cyrff llywodraethu osod llinellau amser rhesymol yn ystod cyfnod gweithredu Rheoliadau 2020, Rheoliadau pellach 2020 a

Rheoliadau 2021.

### Adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau dros dro

6.11 Cynhaliwyd adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau dros dro yn ystod 2022 drwy arolwg o Grŵp Swyddogion Derbyn i Ysgolion Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, sydd â chynrychiolaeth o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol ac awdurdodau esgobaethol. Fe wnaeth deunaw o awdurdodau lleol ymateb ynghyd ag un awdurdod esgobaethol ar ran rhai o ysgolion yr Eglwys yng Nghaerdydd.

6.12 Dangosodd canlyniadau'r arolwg, ers i'r trefniadau dros dro ddod i rym, y gwrandawyd ar gyfanswm o 3,543 o apelau gan ymatebwyr, a bod 2,937 (83%) ohonynt wedi'u cynnal o bell. Roedd 943 o apelau yn llwyddiannus. Roedd yr adborth gan yr ymatebwyr yn gadarnhaol, gan awgrymu bod y trefniadau dros dro yn gweithio'n dda ac yn darparu buddion o ran amser ac arbedion cost i awdurdodau lleol, awdurdodau derbyn, ysgolion, panelau apêl ac apelwyr.

6.13 Rhoddodd nifer o'r ymatebwyr rywfaint o adborth a gawsant gan rieni gyda rhai yn adrodd bod rhieni yn bod yn gadarnhaol am y trefniadau o bell. Roedd hyn yn golygu nad oedd rhaid iddynt gymryd amser o'r gwaith, trefnu gofal plant na theithio i leoliadau i fynd i gyfarfodydd, yn enwedig mewn ardaloedd mwy gwledig. Hefyd, adroddodd awdurdodau lleol y canfyddiad bod teuluoedd yn ymddangos yn fwy cyfforddus yn cynnal apelau yn eu hamgylchfyd eu hunain.

6.14 Dywedodd awdurdodau derbyn hefyd bod nifer o'u haelodau panel o oedran hŷn ac felly'n fwy agored i salwch difrifol yn sgil COVID-19 a mathau eraill o salwch tymhorol. Eglurodd rhai awdurdodau fod y pandemig wedi golygu y gallai rhai aelodau o'r panel wrthod dod i wrandawiadau yn bersonol oherwydd risg uwch o drosglwyddo'r coronafeirws. Roedd rhai awdurdodau derbyn yn pryderu na fyddant bob amser yn gallu bodloni'r gofynion presennol ar gyfer apelau derbyn os na allant ddwyn panelau ynghyd.

6.15 Codwyd peth pryder ynghylch apelau a benderfynir ar sail cyflwyniadau ysgrifenedig yn unig. Wrth edrych i'r dyfodol, roeddent yn teimlo y dylai apelau wyneb yn wyneb neu apelau o bell gael eu cadw yn opsiynau a'u defnyddio pan fo modd, gydag apelau a benderfynir ar sail gwybodaeth ysgrifenedig yn unig i'w defnyddio pan na fo modd defnyddio'r dulliau hynny.

6.16 Prin oedd y defnydd o'r hyblygrwydd a oedd yn caniatáu i ddau aelod o'r panel barhau i benderfynu apêl pan fo un aelod o'r panel yn tynnu'n ôl oherwydd y coronafeirws.

6.17 Gofynnodd pob un o'r 22 o awdurdodau lleol i'r hyblygrwydd a ddarperir gan apelau o bell gael ei gadw a'i wneud yn barhaol. Fe wnaethant gyfeirio at y ffordd newydd o weithio lle'r oedd gweithio o bell a chyfarfodydd o bell wedi dod yn beth arferol. Maent hefyd yn cyfeirio at y ffaith bod yr argyfwng costau byw presennol yn rhwystr gwirioneddol i rai teuluoedd ac aelodau panel sy'n teithio i leoliadau i fynd i wrandawiadau, a hefyd at heriau i awdurdodau lleol yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

## 7. Opsiynau

7.1 Ystyriwyd dau opsiwn:

- *cadw'r status quo – cadw'r gofyniad i apelau derbyn gael eu cynnal yn bersonol yn unig*
- *gwneud y ddeddfwriaeth - diwygio Rheoliadau 2005 a gwneud y Cod Apelau drafft i gynnwys opsiwn i apelau ddigwydd o bell, yn ogystal ag yn bersonol neu drwy gymysgedd o'r ddau*

### ***Opsiw 1 – Cadw'r status quo – apelau derbyn i'w cynnal yn bersonol yn unig heb unrhyw opsiwn i gynnal apelau o bell***

7.2 Byddai cynnal y *status quo* yn golygu y byddai'n rhaid i bob apêl ddigwydd wyneb yn wyneb. Ni fyddai unrhyw hyblygrwydd i awdurdodau derbyn ymateb i faterion lleol neu genedlaethol, er enghraifft pandemig yn y dyfodol neu faterion iechyd tymhorol a allai effeithio ar y gallu i apelau gael eu cynnal yn bersonol.

7.3 Byddai'n ofynnol o hyd i awdurdodau derbyn drefnu ac ariannu lleoliadau ar gyfer pob apêl, ynghyd â chostau teithio swyddogion cyflwyno ac aelodau panel ac amser o'r gwaith i'r staff sy'n bresennol. Ni fyddai Opsiw 1 yn adlewyrchu adborth gan randdeiliaid sy'n nodi'r manteision i awdurdodau lleol, ysgolion, panelau apêl ac apelwyr o gael yr hyblygrwydd i gynnal apelau o bell yn ogystal ag yn bersonol neu drwy gymysgedd o'r ddau. Cyfeiriodd rhanddeiliaid at arbedion o ran cost ac amser i bawb sy'n gysylltiedig.

7.4 Ni fyddai cyfle i wrando apelau apelwyr o bell. Mae'r adborth yn awgrymu bod rhai teuluoedd yn teimlo bod apelau o bell yn llai brawychus. Fe wnaeth yr ymatebion i'r ymgynghoriad hefyd dynnu sylw at arbedion amser a chostau i deuluoedd o ran gorfod trefnu ac ariannu gofal plant, a gostyngiad yn yr amser a gymerir i ffwrdd o'r gwaith i fynd i apelau.

7.5 Mae'n bosibl bod rhai awdurdodau lleol yn parhau i'w chael yn anodd cael aelodau panelau, llawer ohonynt yn hŷn, i gymryd rhan mewn apelau wyneb yn wyneb oherwydd eu pryderon am ddal y coronafeirws.

### ***Opsiw 2 – Gwneud y ddeddfwriaeth i ddiwygio Rheoliadau 2005 a gwneud y Cod Apelau drafft i gynnwys opsiwn ar gyfer cynnal apelau o bell, yn ogystal ag yn bersonol neu drwy gymysgedd o'r ddau.***

7.6 Byddai gwneud y ddeddfwriaeth yn golygu bod opsiwn i gynnal apelau o bell ond gan gynnal tegwch a chyfiawnder a fydd yn sicrhau bod partïon yn gallu cyflwyno eu hachos yn llawn a chael mynediad at yr offer angenrheidiol. Byddai'n ofynnol i awdurdodau derbyn wneud yr holl drefniadau angenrheidiol er mwyn i'r panel apêl gael mynediad at yr offer mynediad o bell angenrheidiol. Bydd yn ofynnol

o hyd i gyrrff perthnasol gan gynnwys awdurdodau derbyn a phanelau apêl gydymffurfio â deddfwriaeth cydraddoldeb a'r ddyletswydd sector cyhoeddus.

7.7 Mae Opsiwn 2 yn rhoi hyblygrwydd i alluogi awdurdodau derbyn i ymateb i faterion lleol neu genedlaethol a allai fel arall effeithio ar y gallu i apelau gael eu cynnal yn bersonol.

7.8 Nid yw gwrandawriadau apêl yn gyfarfodydd cyhoeddus felly mae dadl nad oes angen iddynt gael eu cynnal mewn fforwm cyhoeddus o ganlyniad. Byddai'r opsiwn i gynnal apelau o bell yn arwain at arbedion cost i'r rhai dan sylw ac felly'n rhoi gwell gwerth am arian. Byddai bwrw ymlaen â'r opsiwn hwn yn ymateb yn gadarnhaol i'r galwadau am apelau o bell gan yr awdurdodau derbyn a oedd wedi cael profiad o ymgymryd ag apelau o bell yn rhan o'r trefniadau dros dro a oedd ar waith mewn ymateb i bandemig COVID-19.

7.9 Mae rhai rhieni yn teimlo bod cynnal apelau yn eu cartref eu hunain yn llai brawychus ac maent yn fwy cyfforddus â'r broses.

7.10 Roedd y mwyafrif llethol o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad (98%) yn cytuno â'r cynnig i gynnwys opsiwn i apelau gael eu clywed o bell yn ogystal ag yn bersonol.

## **8. Costau a manteision**

***Opsiwn 1 – Cadw'r status quo – apelau derbyn i'w cynnal yn bersonol yn unig heb unrhyw opsiwn i ymgymryd ag apelau o bell.***

8.1 Byddai awdurdodau lleol yn parhau i fod yn gyfrifol am drefnu a thalu am leoliadau, ynghyd â chostau teithio ar gyfer staff ac aelodau panel a chostau eraill. Byddai teuluoedd sy'n gweithio yn parhau i orfod cymryd amser o'r gwaith, a threfnu gofal plant pan fo angen.

***Opsiwn 2 – Gwneud y deddfwriaeth i ddiwygio Rheoliadau 2005 a gwneud y Cod Apelau drafft i gynnwys opsiwn i apelau gael eu cynnal o bell, yn ogystal ag yn bersonol neu drwy gymysgedd o'r ddau.***

8.2 Rydym yn rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau derbyn gynnal apelau o bell yn ogystal ag wyneb yn wyneb neu drwy gymysgedd o'r ddau (hybrid) gyda rhai mynychwyr yn cymryd rhan o bell ac eraill wyneb yn wyneb. Nid ydym yn gosod unrhyw ofynion ychwanegol ar awdurdodau derbyn. Yr awdurdod derbyn sydd i benderfynu a ddylid cynnal apelau o bell. Nid oes dyletswydd ar awdurdodau derbyn i gynnal apelau o bell. Gwnaeth awdurdodau derbyn ddefnydd o apelau o bell yn ystod pandemig COVID-19 a nododd llawer ohonynt arbedion o ran cost ac amser o ganlyniad.

8.3 Fel rhan o'r ymgynghoriad gwnaethom ofyn a fyddai'r newidiadau arfaethedig yn arwain at gostau neu arbedion newydd i awdurdodau lleol. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr (80%) yn cytuno y byddai arbedion blynyddol i awdurdodau lleol. Roedd hyn yn cynnwys amser a chost trefnu a thalu am leoliadau, costau teithio i'r awdurdod lleol ac aelodau'r panel apêl, ynghyd â chostau eraill ac amser o'r gwaith er mwyn i staff fynd i apelau, gan gynnwys pan fo sawl apêl i'w glywed mewn un

diwrnod. Nododd un awdurdod lleol gostau monitro ar gyfer aelodau'r panel apêl, ond dywedodd hefyd bod hyn yn cael ei wrthbwysu gan yr arbedion.

8.4 Gofynnwyd i awdurdodau lleol egluro beth yw'r amcangyfrif ar gyfer yr arbedion ychwanegol hyn. Mae'r dystiolaeth a gafwyd gan awdurdodau lleol yn cefnogi'r disgwyliad y bydd y Rheoliadau hyn yn creu arbedion o ran cost. Fodd bynnag, ni chawsom ddigon o wybodaeth i'n galluogi ni i roi amcangyfrif cadarn o arbedion blynyddol cyfanredol. Er mwyn rhoi syniad o'r arbedion posibl, dywedodd un awdurdod lleol eu bod bob amser yn gorfod talu darparwyr annibynnol am ystafelloedd cynadledda yn eu cyfleusterau ar gyfradd o £200 y dydd ar gyfartaledd. Roedd costau ychwanegol ar ben hyn, gan gynnwys costau teithio a chostau cynhaliaeth aelodau'r panel. Yn fwy diweddar, bu'n rhaid i'r un awdurdod archebu ystafell gynadledda mewn lleoliad annibynnol ar gyfer gwrandawriad deuddydd a wnaeth gostio £800 i gyd.

8.5 Amcangyfrifodd un awdurdod lleol mawr arbedion o sawl mil o bunnau y flwyddyn, yn seiliedig i raddau helaeth ar gostau teithio, heb gynnwys arbedion o ran costau teithio i apelwyr.

8.6 Dywedodd awdurdod lleol arall fod costau teithio a chostau cynhaliaeth i aelodau'r panel yn cael eu lleihau'n ddramatig, sydd wedi gwrthbwysu cost monitorau a brynwyd ar gyfer aelodau'r panel i gysylltu â'u cyfrifiadur/gliniadur eu hunain. Mae hyn wedi arwain at arbediad cyfartalog o 75% y flwyddyn am y 3 blynedd ddiwethaf (gan gynnwys 22/23 hyd yma).

8.7 Tynnodd un awdurdod arall sylw at y ffaith y bydd amser swyddogion yn cael ei leihau'n helaeth ar gyfer pob gwrandawriad. Bydd effeithlonrwydd swyddogion yn cael ei gynyddu gan y byddant yn gallu gweithio rhwng y gwrandawriadau os oes sawl un mewn diwrnod.

8.8 Cytunodd y mwyafrif o'r ymatebwyr (46%) y bydd y newidiadau'n arwain at gostau/arbedion i ysgolion.

8.9 Tynnodd un awdurdod esgobaethol sylw at y ffaith y byddai arbedion blynyddol i ysgolion (*sy'n awdurdodau* derbyn arnynt hwy eu hunain) gan gynnwys amser a chost trefnu lleoliadau, costau teithio i staff a swyddogion cyflwyno fod yn bresennol, ynghyd â chostau yswiriant ychwanegol i staff ac amser teithio i fynd i leoliadau apêl. Tynnodd ymatebwr arall sylw at y ffaith bod dyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu digon o arian i ysgolion redeg apelau ond y gallai rhai ysgolion fodd bynnag weld arbedion costau, yn enwedig pan fo ganddynt bennaethiaid sy'n addysgu, gan y bydd cyfarfodydd ar-lein yn golygu na fydd angen i'r aelodau hynny o staff dreulio cymaint o amser o'r ysgol, gan olygu bod angen llai o staff lanw.

8.10 Mae adrannau 1 ac 8 o'r asesiad effaith integredig ar y cynnig hwn ar gyfer newid is-ddeddfwriaeth i'w gweld yma: [Newidiadau i'r trefniadau apelau derbyn i ysgolion: asesiad o'r effaith \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

## **9. Asesiad o'r gystadleuaeth**

9.1 Nid yw Rheoliadau 2023 yn effeithio ar fusnesau, elusennau a/na'r sector gwirfoddol.

## **10. Adolygiad ôl-weithredu**

10.1 Mae'r Cod Derbyniadau i Ysgolion a'r Cod Apelau yn cael eu hadolygu'n barhaus tra eu bod yn parhau mewn grym. Byddwn yn monitro gweithrediad Rheoliadau 2023 a'r Cod Apelau i sicrhau eu bod yn cael yr effaith y bwriedir iddynt ei chael, sef sicrhau bod apelau yn cael eu gweinyddu yn y ffordd fwyaf effeithiol yn weithredol, gan gynnal tegwch a chyfiawnder.

10.2 Yn rhan o hyn, byddwn yn parhau i gysylltu â Grŵp Swyddogion Derbyniadau i Ysgolion Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru sydd â chynrychiolaeth o bob awdurdod lleol ac awdurdod esgobaethol. Byddwn hefyd yn ystyried unrhyw adborth a gafwyd gan apelwyr.